# Y Pwyllgor Archwilio

## Cofnodion AC(2) 11-06

### Dyddiad y cyfarfod: 14 Rhagfyr 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00am – 3.05pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews (Prynhawn) | Rhondda |
| Lorraine Barrett (Bore) | De Caerdydd a Phenarth |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Denise Idris Jones | Conwy |
| Irene James | Islwyn |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |

#### Swyddogion yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Jeremy Colman | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gill Lewis | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Matthew Mortlock | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Rob Powell | Swyddfa Archwilio Cymru |
| James Verity | Swyddfa Archwilio Cymru |

| | |
|---|---|
| David Powell | Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad |

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Alan Murray | Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Philip Selwood | Cynghorydd Ambiwlans, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Ann Lloyd | Pennaeth Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Simon Dean | Prif Weithredwr, Comisiwn Iechyd Cymru |
| Stuart Marples | Cyd Gyfarwyddwr, Perfformiad a Gweithrediadau, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Derek Griffin | Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Swyddfa Ranbarth Gogledd Cymru |

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Kathryn Jenkins | Clerc y Pwyllgor |
| Daniel Collier | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau’r pwyllgor a’r cyhoedd i’r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alun Cairns ond roedd Jonathan Morgan yn dirprwyo ar ei ran, Mick Bates gyda Jenny Randerson yn dirprwyo ar ei ran a Catherine Thomas lle'r oedd Jeff Cuthbert yn dirprwyo ar ei rhan. Derbyniwyd ymddiheuriadau hefyd gan Leighton Andrews ar gyfer sesiwn y bore. Roedd Lorraine Barrett yn dirprwyo ar ei ran ef.

**Eitem 2: Cyflwyniad gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ei adroddiad ar y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru**
**Papur: AC(2) 11-06(p1)**

2.1 Clywodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ei adroddiad Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru a bu’r Aelodau yn ei holi am ei ganfyddiadau.

**Eitem 3: Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru – tystiolaeth gan yr Ymddiriedolaeth**
**Papur: AC(2) 11-06(p1)**

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Alan Murray, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Philip Selwood, Cynghorydd Ambiwlans yr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans.

**Pwyntiau gweithredu**

Cytunodd Alan Murray i ddarparu'r canlynol ar gyfer y Pwyllgor:

- Nodyn yn nodi sut y byddent yn cwrdd â'r diffyg cyllid ar gyfer y Prosiect Ail-gaffael Radio Ambiwlans a sut yr oedd yn cyd-fynd â'r Cynllun Newid ac Effeithiolrwydd Gwasanaeth

**Eitem 4: Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru – tystiolaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru**
**Papur: AC(2) 11-06(p1)**

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ann Lloyd, Pennaeth yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Stuart Marples, Cyd Gyfarwyddwr Perfformiad a Gweithrediadau, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Simon Dean, Prif Weithredwr Comisiwn Iechyd Cymru a Derek Griffin, Cyfarwyddwr Rhanbarthol Swyddfa Ranbarth Gogledd Cymru.

**Pwyntiau gweithredu**

Cytunodd Ann Lloyd i ddarparu'r canlynol ar gyfer y Pwyllgor:

- Trawsgrifiad o'r nodiadau a ddefnyddiwyd wrth annerch Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar ddau achlysur, yn mynegi ei phryderon am hyfedredd rheoli, perfformiad yr Ymddiriedolaeth a'r angen i weithredu'n ddi-oed.

**Eitem 5: Ymatebion Llywodraeth y Cynulliad i adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a chyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Papur: AC(2) 11-06(p2), AC(2) 11-06(p3), AC(2) 11-06(p4), AC(2) 11-06(p5)**

5.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Reoli Ynni yn y GIG yng Nghymru a'r Cynnydd yn y sector Addysg Bellach: rheolaeth ystadau a chaffael a bu'r Aelodau'n trafod cyngor yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: AC(2) 10-06(mins)**

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2006.

## Sesiwn Briefat

Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.24(vi).

## Eitem 7: Gwerthusiad y pwyllgor o'r sesiwn gyflwyno tystiolaeth

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd o adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru.

## Eitem 8: Adroddiad drafft y Pwyllgor Rheoli Absenoldeb Salwch yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru
**Papur: AC(2) 11-06(p6)**

8.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad drafft.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Rhagfyr 2006**